| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **DYDDIAD Y PWYLLGOR:** | **4 CHWEFROR 2013** |
| **TEITL:** | **YMGYNGHORI AR Y CYNIGION AR GYFER CYLLIDEB 2013/14 – GOBLYGIADAU I'R GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD DROS DRO** |

Fel rhan o'i Raglen Waith, mae'r Pwyllgor wedi cytuno ei fod yn ystyried y goblygiadau i'r Gwasanaethau Democrataidd yn sgil y cynigion ar gyfer Cyllideb 2013/14.

Mae'r cynigion arbedion mewn perthynas â'r Gwasanaethau Democrataidd wedi eu cynnwys dan Adran y Dirprwy Brif Weithredwr a'r dudalen 12 y ddogfen ymgynghori. Mae'r agweddau hyn eisoes wedi cael sylw gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 28 Ionawr 2013.

Ac eithrio'r gostyngiad mewn perthynas â lwfansau'r Aelodau yn unig fater a ddygir i sylw'r Pwyllgor hwn yw cynigion i wneud arbedion trwy roi gorau i ddefnyddio amlenni yn yr Awdurdod lle mae'r costau postio wedi eu talu ymlaen llaw.

Ers 1996 darparwyd i'r Aelodau, ar gais, amlenni gyda'r costau postio wedi ei dalu ymlaen llaw fel bod modd i'r Aelodau hynny gyflawni eu dyletswyddau. Mae nifer yr Aelodau sy'n defnyddio amlenni o'r fath wedi gostwng yn sylweddol ac yn ystod 2011/12 dim ond 6 o Aelodau ofynnodd am yr amlenni hyn. Costiodd hynny £185.

Mae canllawiau ar gefnogi gwaith Aelodau Awdurdodau Lleol wedi eu hamlinellu yn Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Dywed yr adroddiad *""Rhaid i awdurdod lleol ddarparu unrhyw gymorth a ystyrir yn angenrheidiol (ee, ffôn, costau postio, cyfarpar TG) i helpu aelodau unigol i gyflawni'u Dyletswyddau".*

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn darparu, heb godi tâl, cefnogaeth i Aelodau fel a ganlyn:

- Offer TGCh – 'iPad' (cynllun peilot ar gyfer y Pwyllgor Gwaith), gliniaduron, peiriannau agraffu a nwyddau traul
- Band llydan a llinellau ffôn
- Deunydd ysgrifennu, ar gais

- Gwasanaeth postio

O gofio ein bod mewn cyfnod o gynni ariannol, efallai bydd y Pwyllgor yn dymuno gwneud sylwadau ar yr ystod o wasanaethau a ddarperir ar gyfer Aelodau, fel y nodir uchod, a pha gyfraniad y gallai Aelodau ei wneud i'r agenda effeithlonrwydd.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro**
**25/01/13**